OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 389 (Cy. 87)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2020

*Gwnaed - - - - 11 Mawrth 2020*

*Yn dod i rym - - 1 Ebrill 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(1)(d), 9(9), 27(1) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf")(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol, fel sy'n ofynnol gan adran 27(4)(a) o'r Ddeddf ac wedi cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan adran 27(4)(b) o'r Ddeddf honno. Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod copi o'r datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 27(5) o'r Ddeddf honno.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(d) ac (f) o'r Ddeddf ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016,

(**1**) 2016 dccc 2; *gweler* y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig" yn adran 189. *Gweler* hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

ystyr "Rheoliadau 2017" ("*the 2017 Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017(**2**),

ystyr "y Rheoliadau Cofrestru" ("*the Registration Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017(**3**),

ystyr "y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig" ("*the Regulated Services Regulations*") yw—

(a) Rheoliadau 2017,

(b) Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**4**),

(c) Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**5**),

(d) Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**6**),

(e) Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**7**).

## RHAN 2

## Diwygiad i'r Ddeddf

### Diwygiad i'r Ddeddf

**2.** Mae'r Ddeddf wedi ei diwygio yn unol â rheoliad 3.

### Person addas a phriodol: ystyriaethau perthnasol

**3.** Yn adran 9(5)(a), ar ôl "is-adran (4)" mewnosoder "neu (6)".

## RHAN 3

## Diwygiadau i'r Rheoliadau Cofrestru

### Diwygiadau i'r Rheoliadau Cofrestru

**4.** Mae'r Rheoliadau Cofrestru wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 5 a 6 ac mae rheoliad 7 yn cyflwyno darpariaeth drosiannol.

### Yr wybodaeth sydd i'w darparu gan ymgeisydd

**5.** Ar ôl rheoliad 3 mewnosoder—

"**3A.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r ymgeisydd, o fewn ystyr paragraff (a) o'r diffiniad o "ymgeisydd" yn rheoliad 2, yn sefydliad.

---

(**2**) O.S. 2017/1264 (Cy. 295) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/757 (Cy. 142).
(**3**) O.S. 2017/1098 (Cy. 278) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 2019/163 (Cy. 40).
(**5**) O.S. 2019/165 (Cy. 41) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) O.S. 2019/169 (Cy. 42).
(**7**) O.S. 2019/762 (Cy. 145).

(2) Rhaid i ymgeisydd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo, yn ychwanegol at yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 3, ddarparu i Weinidogion Cymru yr wybodaeth ym mharagraff (3).

(3) Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu, mewn perthynas â'r personau a restrir ym mharagraff (4)—

(a) eu henw llawn, eu dyddiad geni, eu cyfeiriad cartref, eu cyfeiriad post electronig a'u rhif ffôn, a

(b) yr wybodaeth a restrir ym mharagraffau 13 i 22 o Atodlen 1.

(4) Y personau y mae rhaid darparu'r wybodaeth ym mharagraff (3) mewn perthynas â hwy yw—

(a) pan fo'r sefydliad yn gorff corfforaethol ac eithrio awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol—

(i) pob person sydd wedi ei benodi'n gyfarwyddwr o'r corff corfforaethol,

(ii) pob person sydd wedi ei benodi'n ymddiriedolwr o'r corff corfforaethol,

(iii) pob aelod o bwyllgor rheoli'r corff corfforaethol,

(b) pan fo'r sefydliad yn gorff anghorfforedig, pob person sy'n ymwneud â rheoli a rheolaeth y corff,

(c) pan fo'r sefydliad yn bartneriaeth, pob partner."

**6.** Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 45—

(i) ar ddiwedd is-baragraff (b), yn lle "." rhodder ";",

(ii) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(c) unrhyw berson sy'n aelod o bwyllgor rheoli'r corff corfforaethol.", a

(b) yn nhestun Saesneg paragraff 48, yn lle "application" rhodder "declaration".

**Darpariaeth drosiannol**

**7.** Mae cais i gofrestru sydd wedi ei gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau Cofrestru cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, i'w benderfynu fel pe na bai'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud.

## RHAN 4

### Diwygiadau i'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig

**Diwygiadau i'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig**

**8.** Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 9.

**9.** Yn Atodlen 3—

(a) yn lle paragraff 3 rhodder—

"**3.** Pan fo'r darparwr gwasanaeth, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2020, yn gorff corfforaethol, unrhyw newid i—

(a) cyfarwyddwyr,

(b) ymddiriedolwyr, neu

(c) aelodau pwyllgor rheoli,

y corff corfforaethol.

**3A.** Pan fo'r darparwr gwasanaeth, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2020, yn gorff anghorfforedig, unrhyw newid i'r personau sy'n ymwneud â rheoli a rheolaeth y corff."

(b) ym mharagraff 5 yn lle "cwmni" rhodder "corff corfforaethol".

# RHAN 5

## Diwygiadau i Reoliadau 2017

### Diwygiadau i Reoliadau 2017

**10.** Mae Rheoliadau 2017 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 11 a 12.

### Dehongli

**11.** Yn rheoliad 1(3), mewnosoder y canlynol yn y lle priodol—

"ystyr "nyrs" ("*nurse*") yw nyrs gymwysedig neu fydwraig gymwysedig sydd wedi ei chofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(**8**);";

"mae i "proffesiynolyn cofrestredig" yr ystyr a roddir i "registered professional" ym mharagraff 1 o Atodlen 3 i Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001(**9**);".

### Addasrwydd staff

**12.** Yn rheoliad 35—

(a) yn lle paragraff (2)(f) rhodder—

"(f) yn ddarostyngedig i baragraff (11) o'r rheoliad hwn, pan fo'r person wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaeth (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr) ac eithrio fel rheolwr er mwyn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson mewn cysylltiad—

(i) â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant,

(ii) â gwasanaeth llety diogel, neu

(iii) â gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf,

fod y person wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru heb fod yn hwyrach na'r dyddiad perthnasol (gweler paragraff (8) am ystyr "y dyddiad perthnasol")."

(b) ar ôl is-baragraff (f) fel y'i hamnewidir gan y Rheoliadau hyn mewnosoder—

"(g) yn ddarostyngedig i baragraff (11) o'r rheoliad hwn, pan fo'r person wedi ei gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau ac eithrio fel rheolwr, i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw berson mewn cysylltiad—

(i) â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant,

(ii) â gwasanaeth llety diogel, neu

(**8**) O.S. 2002/253, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/838 ac O.S. 2009/1182; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**9**) O.S. 2002/254, y mae offerynnau diwygio iddo.

(iii) â gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf,

fod y person wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru heb fod yn hwyrach na'r dyddiad perthnasol (gweler paragraff (8A) am ystyr "y dyddiad perthnasol")".

(c) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(8A) Ym mharagraff (2)(g) o'r rheoliad hwn, "y dyddiad perthnasol" yw naill ai—

(a) 6 mis o'r dyddiad y cymerir person ymlaen gyntaf o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i ddarparu gofal a chymorth mewn cysylltiad—

(i) â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant,

(ii) â gwasanaeth llety diogel,

(iii) â gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, neu

(b) unrhyw ddyddiad diweddarach y mae'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno arno o dan amgylchiadau eithriadol."

(d) ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

"(11) Nid yw'r gofyniad bod person wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol â pharagraff (2)(f) ac (g) yn gymwys pan fo'r person wedi ei gyflogi (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr) neu ei gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i weithio fel—

(a) nyrs, neu

(b) proffesiynolyn cofrestredig."

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Mawrth 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae Rhan 2 yn cynnwys diwygiad i adran 9 o'r Ddeddf. Mae adran 9 o'r Ddeddf yn ymwneud ag unrhyw benderfyniad y mae Gweinidogion Cymru yn ei wneud ynghylch a yw darparwr gwasanaeth, person sy'n gwneud cais i fod yn ddarparwr gwasanaeth, unigolyn cyfrifol neu berson sydd i'w ddynodi'n unigolyn cyfrifol (y cyfeirir atynt ar y cyd o hyn ymlaen fel "person perthnasol") yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth neu, yn ôl y digwydd, yn unigolyn cyfrifol.

Mae rheoliad 3 yn diwygio adran 9 i estyn cymhwysiad is-adran (6) i gynnwys unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â pherson perthnasol neu a oedd gynt yn gysylltiedig â pherson perthnasol.

Effaith y diwygiad hwn yw caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried tystiolaeth bod unrhyw berson sy'n gysylltiedig â pherson perthnasol neu a oedd gynt yn gysylltiedig â pherson perthnasol wedi bod yn gyfrifol am gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso, wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig yng Nghymru neu wasanaeth cyfatebol y tu allan i Gymru.

Mae Rhan 3 yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Cofrestru"). Mae'r Rheoliadau Cofrestru wedi eu gwneud o dan adrannau 6 ac 11 o'r Ddeddf.

Mae adran 6(1) o'r Ddeddf yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gwybodaeth ychwanegol y mae rhaid ei chynnwys mewn cais i gofrestru.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau Cofrestru yn pennu'r wybodaeth ychwanegol sydd i'w darparu gan ymgeisydd sy'n gwneud cais i gofrestru. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Cofrestru.

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliad 3A yn y Rheoliadau Cofrestru.

Mae rheoliad 3A yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae rhaid ei darparu, yn achos corff corfforedig, gan bob cyfarwyddwr, ymddiriedolwr neu aelod o'r pwyllgor rheoli; yn achos partneriaeth, gan bob partner; ac yn achos corff anghorfforedig, gan bob person sy'n ymwneud â rheoli a rheolaeth y corff.

Mae rheoliad 7 yn cynnwys darpariaeth drosiannol sy'n berthnasol i'r rheoliad 3A a fewnosodir.

Mae Rhan 4 yn diwygio pob un o'r setiau a ganlyn o Reoliadau (y cyfeirir atynt ar y cyd o hyn ymlaen fel "y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig") sydd wedi eu gwneud o dan adrannau 27 ac 28 o'r Ddeddf:

(a) Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017,

(b) Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019,

(c) Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019,

(d) Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019, ac

(e) Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn nodi'r gofynion rheoleiddiol sy'n gymwys i ddarparwyr gwasanaethau a reoleiddir o dan y Ddeddf. Y gwasanaethau hyn yw gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau lleoli oedolion, gwasanaethau eirioli, gwasanaethau maethu a gwasanaethau mabwysiadu.

Ym mhob set o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, mae Atodlen 3 yn rhestru'r digwyddiadau y mae rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, sef Gweinidogion Cymru, amdanynt.

Mae rheoliad 9 yn rhoi paragraff 3 newydd a pharagraff newydd 3A yn lle'r paragraff 3 presennol o Atodlen 3 i bob set o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

Y digwyddiad a restrir ym mharagraff 3 newydd yw unrhyw newid i'r personau sy'n rhan o'r corff a gyfansoddir (yn ffurfiol neu'n anffurfiol) fel corff gwneud penderfyniadau'r sefydliad, megis cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr neu aelodau pwyllgor rheoli'r darparwr gwasanaeth pan fo'r darparwr gwasanaeth yn gorff corfforedig.

Y digwyddiad a restrir ym mharagraff newydd 3A yw unrhyw newid i'r personau sy'n ymwneud â rheoli a rheolaeth corff y darparwr gwasanaeth pan fo'r darparwr gwasanaeth yn gorff anghorfforedig.

Mae Rhan 5 yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017").

Mae Rheoliadau 2017 yn nodi'r gofynion rheoleiddiol sy'n gymwys i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref.

Mae Rhan 10 o Reoliadau 2017 yn cynnwys gofynion penodol o ran addasrwydd unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

Mae rheoliad 12 yn diwygio rheoliad 35 o Reoliadau 2017.

Mae paragraff (a) yn amnewid paragraff 2(f) o reoliad 35 o Reoliadau 2017 sy'n darparu, pan fo darparwr gwasanaeth yn cyflogi person ac eithrio fel rheolwr i ddarparu gofal a chymorth mewn cysylltiad â chartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth cymorth cartref, fod rhaid i'r person fod wedi ei gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn 6 mis i ddechrau ei gyflogaeth.

Mae paragraff (b) yn mewnosod paragraff newydd 2(g) o reoliad 35 o Reoliadau 2017 sy'n darparu, pan fo person wedi ei gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau (sy'n cynnwys gweithwyr asiantaeth) ac eithrio fel rheolwr, i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw berson mewn cysylltiad â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth cymorth cartref, fod rhaid i'r person hwnnw fod wedi ei gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn 6 mis i'r dyddiad y cymerir y person ymlaen gyntaf o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i ddarparu gofal a chymorth o'r fath.

Mae paragraff (d) yn mewnosod paragraff newydd 11 i ddarparu nad yw'r gofyniad bod person wedi ei gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol â rheoliad 35(2)(f) ac (g) yn gymwys pan fo'r person hwnnw wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i weithio fel nyrs, neu broffesiynolyn cofrestredig sydd wedi ei gofrestru â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr

Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.